

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Ffordd Ymuno Tua'r Gogledd yn
Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf)
(Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig
Dros Dro) 2020**

**The A470 Trunk Road
(Northbound Entry Slip Road at
Taffs Well, Rhondda Cynon Taf)
(Temporary Traffic Restriction &
Prohibition) Order 2020**

Gwnaed 18 Mehefin 2020
Yn dod i rym 22 Mehefin 2020

Made 18 June 2020
Coming into force 22 June 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno Tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 22 Mehefin 2020.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Traffic Restriction & Prohibition) Order 2020 and it comes into force on 22 June 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 22 Mehefin 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.85 o fetrau o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysio

5.—(1) Nid yw'r cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 22:00 hours on 22 June 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restriction & Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 2.85 metres on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

5.—(1) The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Mehefin 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

18 June 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1 **Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn o lôn allanol ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 yn Ffynnon Taf sy'n ymestyn o arwydd y Terfyn Cyflymder Cenedlaethol hyd at arwydd y terfyn cyflymder 50 mya ar y brif gerbyffordd tua'r gogledd.

ATODLEN 2 **Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro**

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 yn Ffynnon Taf.

SCHEDULE 1 **Temporary 40 mph Speed Limit**

The length of the outside lane of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well that extends from the National Speed Limit sign to the 50 mph speed limit sign on the main northbound carriageway.

SCHEDULE 2 **Temporary Prohibition of Wide Vehicles**

The entire length of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(FFORDD YMUNO TUA'R GOGLEDD YN
FFYNNON TAF, RHONDDA CYNON TAF)
(CYFYNGIAD A GWAHARDDIAD TRAFFIG
DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidigion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw:

- i. gosod terfyn cyflymder 40 mya dros dro ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a
- ii. gwahardd cerbydau dros 2.85 o fetrau o led rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwyr arall yn ynddi hefyd.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 22:00 o'r gloch ar 22 Mehefin 2020 ac y bydd yn parhau mewn grym tan 9 Gorffennaf 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymyon, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (NORTHBOUND
ENTRY SLIP ROAD AT TAFFS WELL,
RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY
TRAFFIC RESTRICTION & PROHIBITION)
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to:

- i. impose a temporary 40 mph speed limit on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice; and
- ii. prohibit vehicles over 2.85 metres wide from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice. The alternative route is also described therein.

The temporary restriction and prohibition are expected to come into force at 22:00 hours on 22 June 2020 and remain in force until 9 July 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o lôn allanol ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 yn Ffynnon Taf sy'n ymestyn o arwydd y Terfyn Cyflymder Cenedlaethol hyd at arwydd y terfyn cyflymder 50 mya ar y brif gerbyffordd tua'r gogledd.

ATODLEN 2
Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 yn Ffynnon Taf.

Y llwybr arall i gerbydau o'r fath fydd ymuno â'r A470 tua'r gogledd wrth Gyffordd 32 yr M4 (Cyfnewidfa Coryton).

SCHEDULE 1
Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the outside lane of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well that extends from the National Speed Limit sign to the 50 mph speed limit sign on the main northbound carriageway.

SCHEDULE 2
Temporary Prohibition of Wide Vehicles

The entire length of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well.

The alternative route for such vehicles is to join the northbound A470 at the M4 Junction 32 (Coryton Interchange).